**Rhif:** WG33082

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

Diddymu darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 ISBN digidol 978 1 78859 652 7

# Diddymu darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer pob ysgol, awdurdod lleol, awdurdod esgobaethol, undeb addysgu, sefydliad addysg bellach, Estyn a phartïon eraill â buddiant. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ynghylch diddymu darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994, a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2017. |
| **Gweithredu gofynnol** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Gwybodaeth bellach** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Gyllid ac Archwilio<br>Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethu Addysg<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 03000 253718<br>e-bost: Education-BusinessPlanning&Governance@Gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Diddymu darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994* (2017) Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru |

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**
**Crynodeb o'r ymatebion** **3**
Cwestiwn 1 3
Cwestiwn 2 4
Cwestiwn 3 5
Cwestiwn 4 5
Cwestiwn 5 6
**Atodiad: Rhestr o ymatebwyr** **7**

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiddymu Rheoliadau sy'n ymwneud â rhoi caniatâd i ddefnyddio deunyddiau ymbelydrol ïoneiddio mewn ysgolion a gynhelir ac annibynnol a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â diddymu darpariaethau yn ymwneud ag arolygu hosteli preswyl ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd ac yn amlinellu'r ffordd arfaethedig ymlaen.

## Crynodeb o’r ymatebion

Ymatebodd tri ymatebydd i’r ymgynghoriad. Mae rhestr o’r ymatebwyr yn Atodiad 1.

### Cwestiwn 1

Ydych chi’n cytuno y dylid diddymu’r gofyniad i ysgolion a sefydliadau addysg bellach ofyn am ganiatâd Gweinidogion Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno |
|---|---|---|
| 2 | 0 | 1 |
| 67% | 0% | 33% |

**Dadansoddiad cryno**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig hwn.

Cyfeiriodd un ymatebydd at y cyfeiriad yn yr ymgynghoriad bod ‘ysgolion yn cael caniatâd ar gyfer deunyddiau ymbelydrol sy’n cael eu rheoli trwy ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch y DU sy’n fwy disgrifiadol’ ac yn cytuno nad oes angen rheoliadau i’w gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud cais am ganiatâd. Dywedodd yr ymatebydd hefyd bod *Managing Ionising Radiations and Radioactive Substances in Schools and Colleges* (CLEAPSS Mai 2017) yn rhoi canllawiau clir iawn ar ddefnyddio’r deunyddiau hyn Fodd bynnag, mae’r ymatebydd yn cwestiynu’r ffaith nad yw’r ddogfen ymgynghori yn ei gwneud hi’n glir a yw’r ddeddfwriaeth hon neu ddeddfwriaeth berthnasol arall yn berthnasol i sefydliadau addysg bellach.

Crybwyllodd yr ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno bod y rhesymeg y tu ôl i’r casgliad hwn yn amhendant a byddai am weld sicrwydd bod y newid hwn yn cael ei ddiogelu at y dyfodol er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle ar gyfer myfyrwyr a gweithwyr addysg proffesiynol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ganlyniad i’r gefnogaeth i’r cynnig hwn, caiff rheoliadau eu diddymu i ddileu’r gofyniad i ysgolion a gynhelir ac annibynnol a sefydliadau addysg bellach wneud cais i Weinidogion Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydrol ïoneiddio. Caiff y defnydd o ddeunyddiau ymbelydrol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ei gwmpasu gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch y DU. Mae adran 2 o ganllawiau *Managing Ionising Radiations and Radioactive Substances in Schools and Colleges* (CLEAPSS, Mai 2017) yn cyfeirio at y cefndir cyfreithiol a’r rheoliadau sy’n rheoli’r rhan fwyaf o weithgarwch caffael, defnyddio a gwaredu sylweddau ymbelydrol a ddefnyddir ym maes gwyddoniaeth mewn ysgolion. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 yn pennu sut y mae’n rhaid i gyflogwyr sicrhau diogelwch eu gweithwyr sy’n gweithio gydag ymbelydredd ïoneiddio ac mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn rheoleiddio caffael, diogelwch a gwaredu sylweddau ymbelydrol. Mae’r ddeddfwriaeth yn berthnasol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

## Cwestiwn 2

Ydych chi’n cytuno y dylid diddymu’r darpariaethau sy’n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno |
|---|---|---|
| 2 | 0 | 1 |
| 67% | 0% | 33% |

**Dadansoddiad cryno**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig hwn.

Soniodd un ymatebydd nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hosteli preswyl ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

Roedd yn well gan un arall o’r ymatebwyr i hyn gael ei ystyried o dan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd ac awgrymodd y dylai hyn fod yn welliant i i’r diddymiadau a restrir ac y dylid ymdrin â nhw yn y ffordd briodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ni fyddai’n briodol gwneud y newid hwn trwy’r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd. O ganlyniad i’r gefnogaeth i’r cynnig hwn, caiff y darpariaethau eu diddymu.

## Cwestiwn 3

Hoffem gael eich barn ar effeithiau diddymu'r Rheoliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gael caniatâd gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio a diddymu'r darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion AAA, ar y Gymraeg, yn enwedig:

i) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### Dadansoddiad cryno

Dywedodd un ymatebydd na fyddai'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, ac ni wnaeth y ddau ymatebydd arall sylw.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Ystyriwyd materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y diwygiadau arfaethedig. Ni chododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw faterion sy'n gofyn am newid y diwygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Cwestiwn 4

Hefyd, eglurwch sut rydych chi'n credu y gellid creu neu newid y polisi arfaethedig o ddiddymu'r Rheoliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gael caniatâd gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio a diddymu'r darpariaethau'n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion AAA er mwyn:

i) cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Dadansoddiad cryno

Dywedodd un ymatebydd na fyddai'r polisi arfaethedig yn cael effaith ar y Gymraeg, felly nid oes angen unrhyw newidiadau. Ni wnaeth y ddau ymatebydd arall sylw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ystyriwyd materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y diwygiadau arfaethedig. Ni chododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw faterion sy'n gofyn am newid y diwygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod:

**Dadansoddiad cryno**

Dywedodd un o'r ymatebwyr bod paragraff 7 o Atodlen 1 Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ysgolion annibynnol gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydrol ïoneiddio ac yn awgrymu nad yw'n glir pam nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y newidiadau arfaethedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae paragraff 7 o Atodlen 1 Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 wedi'i gynnwys yn y newid a chaiff ei ddiddymu. Felly ni fydd yn ofynnol i ysgolion annibynnol ofyn am gymeradwyaeth.

## Atodiad: Rhestr o ymatebwyr

1. ATL Cymru
2. Estyn
3. NUT Cymru